**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1388
Ein cyf/Our ref LG/00797/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

11 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr, ynghylch deiseb P-06-1388 i ddileu'r gofyniad i ffermwyr gael o leiaf 10% o orchudd coed i gael mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cyhoeddais yr ymgynghoriad terfynol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ar 14 Rhagfyr sy'n cynnwys y fersiwn ddiweddaraf o ystod eang o gamau gweithredu arfaethedig, gan gynnwys gofynion gorchudd coed.

Hoffwn egluro rhai pwyntiau ynghylch y gofyniad gorchudd coed arfaethedig o 10%:

Byddai coed a choetir presennol yn cael eu cyfrif tuag at y gofyniad sylfaenol hwn. Nid ydym yn cynnig y byddai angen i bob ffermwr blannu 10% ychwanegol at y coed sydd ganddynt eisoes.

O fewn yr ymgynghoriad hwn rydym wedi cynnig diwygiadau i sut y gellid cyfrifo'r 10%. Er enghraifft, nid yw'n ymarferol i ffermwyr tenant blannu coed os yw eu cytundeb tenantiaeth yn ei wahardd, a byddai'n amhriodol yn ecolegol i blannu ar gynefinoedd â blaenoriaeth. Felly, rydym yn cynnig addasu'r gofyniad fel nad yw'n 10% o'r fferm gyfan bellach, ond 10% o'r arwynebedd sy'n weddill pan fydd yr arwynebeddau nad oes modd eu plannu wedi'u tynnu o'r cyfrifiad.

Yn wahanol i'r Cynllun Taliad Sylfaenol presennol, bydd coed a choetiroedd yn cael eu cynnwys yn yr arwynebedd tir sy'n cynhyrchu taliadau i ffermwyr, felly rwy'n gobeithio y gall ffermwyr unwaith eto ddysgu i werthfawrogi'r manteision lluosog a ddarperir gan goed.

Rydym yn parhau i archwilio gyda'r diwydiant ffermio sut y gall coed ychwanegol gael eu hintegreiddio mewn modd y maent yn dod yn ased, megis darparu cysgod a lloches i dda byw rhag tywydd cynyddol ansefydlog, neu fel rhwystrau bioddiogelwch ar ffiniau ffermydd. Yn y modd hwn gall coed gyfrannu at gynhyrchu bwyd a gwydnwch cyffredinol busnes y fferm. Nid oes angen dewis rhwng coed neu gynhyrchu bwyd yn unig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni ddylid ystyried y gofyniad gorchudd coed ar ei ben ei hun. Mae'n un elfen o gynllun sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ochr yn ochr â'r gwaith parhaus o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Yn y modd hwn gallwn helpu ein ffermwyr i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Nid oedd y ddeiseb hon yn seiliedig ar y cynigion a ddiweddarwyd. Rwy'n annog pob ffermwr i ymateb i'r ymgynghoriad presennol.

Ni fydd unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud o ran dylunio'r cynllun, gan gynnwys ar ofynion gorchudd coed, tan ddiwedd yr ymgynghoriad hwn. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 7 Mawrth.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**